## PWYLLGOR ARCHWILIO PERFFORMIAD

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Iau, 14 Gorffennaf 2016 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Ray Bartley, Geraint Lloyd-Williams, Barry Mellor (Cadeirydd), Arwel Roberts a Gareth Sandilands

Aelodau'r Cabinet - Y Cynghorwyr Barbara Smith, David Smith a Julian Thompson-Hill yn bresennol ar wahoddiad y pwyllgor ar gyfer eitemau yn ymwneud â'u portffolios.

### HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Pennaeth Cyfleusterau, Asedau a Thai (JG); Swyddog Arweiniol - Cartrefi Cymunedol (GD); Rheolwr Gweithrediadau Priffyrdd a Gwasanaethau Stryd (De) (SB); Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd (GB); Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd (EJ); Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol (TWE); Rheolwr Grŵp: Rhaglen Newid, Cymorth Busnes a Thwristiaeth (BE); Swyddog Perfformiad: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol (KB); Rheolwr Tîm Cynllunio Strategol (VR): Cydlynydd Archwilio (RE) a Gweinyddwr y Pwyllgor (KEJ)

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Meirick Davies, Colin Hughes, Dewi Owens a Joe Welch

### 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni chafodd unrhyw gysylltiad ei ddatgan.

### 3 MATERION BRYS FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

### 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Archwilio Perfformiad a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2016.

**Materion yn codi -**

Tudalen 8 - Eitem Rhif 5 Cofnodion: Cyflwyno BT Superfast Cymru yn Sir Ddinbych - Mynegodd y Cynghorydd Gareth Sandilands bryder bod y Cyngor wedi cyhoeddi datganiad i'r wasg ynghylch ei siom gydag ymateb Llywodraeth Cymru i'r cais o rannu'r map yn nodi 'mannau gwan' ar gyfer ffibr optig cyflym iawn yn Sir Ddinbych. Roedd yn teimlo y byddai wedi bod yn fwy cynhyrchiol i'r Cyngor gymryd rhan mewn deialog gyda Llywodraeth Cymru ar y mater yn hytrach na mynd yn gyhoeddus. Dywedodd y swyddogion bod yr Arweinydd wedi ysgrifennu at y

Gweinidog eto yn gofyn am y wybodaeth fel bod y Cyngor yn gallu rhoi gwybod i drigolion am argaeledd band eang cyflym iawn. Mae’r Cyngor yn dal i aros am ymateb gan y Gweinidog.

Tudalen 9 - Eitem 6 Adroddiad Perfformiad y Cynllun Corfforaethol: Chwarter 4 2015/16 - Mewn ymateb i bryderon a godwyd yn y cyfarfod blaenorol roedd y Rheolwr Gweithrediadau Priffyrdd a Gwasanaethau Stryd (De) yn bresennol i roi gwybod i aelodau am y sefyllfa o ran y contractau torri gwair ar gyfer mynwentydd lawnt y sir. Dywedodd fod y contractwyr (y ddau ohonynt) sydd yn gyfrifol am y gwaith torri gwair mewn saith mynwentydd lawnt y sir wedi rhoi'r gorau i fasnachu. O ganlyniad mae Tîm Gwasanaethau Stryd y Cyngor wedi cymryd cyfrifoldeb am y gwaith am weddill y flwyddyn ariannol 2016/17. Cadarnhaodd fod problemau wedi bod gydag un o'r contractwyr yn ystod y toriad cyntaf gan nad oeddent wedi gwneud y gwaith i'r safon a nodir yn y contract. Mae'r holl broblemau sy'n ymwneud â'r gwaith a wnaed gan y contractwyr wedi cael eu cywiro gan staff y Gwasanaethau Stryd a'r Swyddog Mynwentydd. Bu trafodaethau o fewn Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol ar y dull mwyaf priodol ar gyfer darparu gwasanaethau torri gwair yn y mynwentydd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017/18. Mae’r Gwasanaeth yn wynebu pwysau ariannol mewn perthynas â incwm mynwentydd yn ddiweddar yn sgîl agor yr amlosgfa newydd yn Llanelwy, a byddai angen cynnwys y pwysau hynny mewn unrhyw drafodaeth a phenderfyniadau cyllideb yn y dyfodol. Dywedodd yr Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai nad oedd gan wasanaeth Tai y Cyngor gontract torri gwair ar wahân a oedd yn ymddangos i fod yn cyflawni gwaith i lefel foddhaol. Felly awgrymodd y dylai swyddogion o wasanaethau eraill archwilio a oedd yn ymarferol i'r contract hwnnw gael ei ymestyn i gynnwys mynwentydd neu y gellir elwa o gontract tebyg. Ailadroddodd y Cynghorwyr Ray Bartley ac Arwel Roberts rai o'r problemau a gafwyd ym Mynwentydd Dinbych a Rhuddlan ac roeddent wedi eu plesio gyda'r ffordd yr oedd y Tîm Gwasanaethau Stryd wedi ymateb i'r materion a godwyd. Y gobaith oedd y byddai’r safon gyfredol o waith cynnal a chadw yn parhau.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mehefin, 2016 fel cofnod cywir.*

## 5 AIL-OSOD CARTREFI CYNGOR

Cyflwynodd y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar berfformiad y Cyngor wrth ail-osod tai Cyngor a'r dull a gymerwyd mewn perthynas â sicrhau gwell canlyniadau i denantiaid yn hytrach na bodloni'r dangosydd perfformiad dynodedig. Diben cyflwyno’r adroddiad oedd ymateb i gais gan aelod etholedig gyda phryderon nad oedd y Cyngor yn cyrraedd y targed ar gyfer ail-osod eiddo fel y nodir yn y Cynllun Corfforaethol.

Eglurodd y Pennaeth Cyfleusterau, Tai ac Asedau a'r Swyddog Arweiniol - Tai Cymunedol er bod y Cyngor wedi cwrdd â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC), roedd y gwaith i fodloni'r safon honno wedi canolbwyntio ar agweddau penodol o dai cymdeithasol, hy ceginau, ystafelloedd ymolchi, ffenestri, systemau gwresogi, ac ati. Ar ôl cyflawni’r gwaith hwnnw cafodd adolygiad ei wneud ar safonau cartrefi wedi’u hail-osod gan y Cyngor i denantiaid. Yn ôl yr adolygiad hynny, er bod

WHQSs wedi eu cwrdd, i gwrdd â'r dangosydd perfformiad ar gyfer ail-osod tai cyngor roedd yr awdurdod mewn sawl achos yn ail-osod tai mewn cyflwr gwael o ran gwaith cynnal a chadw yn fewnol ac yn allanol. Roedd hyn yn annheg ar y tenantiaid newydd, a oedd yn fwy aml na pheidio heb ddigon o incwm i'w wario ar wella'r eiddo hyd at safon resymol o addurno, ac ati. Dangoswyd sleidiau Powerpoint i'r pwyllgor i ddangos cyflwr rhai o'r tai a ail-osodwyd i denantiaid yn y gorffennol a rhai wedi'u hail-osod rŵan ers i'r cyngor fabwysiadu dull o sicrhau bod ei eiddo yn cael ei ail-osod hyd at safonau priodol. Y rhesymeg y tu ôl i'r dull oedd bod eiddo yn cael ei ail-osod mewn cyflwr da yn ogystal â'r addurno y tu mewn a thu allan, gan gynnwys gerddi twt a thaclus, a fyddai'n annog tenantiaid i gymryd balchder yn eu cartrefi a hefyd yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn rhai ardaloedd. Mae'r gost i'r Cyngor o adnewyddu'r eiddo hyn ar gyfartaledd tua £1k fesul eiddo, mae arian i wneud y gwaith ar gael yn y Cyfrif Refeniw Tai (HRA). Eglurodd y swyddogion y broses o adleoli eiddo'r cyngor a chydlynu'r gwaith cynnal a chadw ac addurno fel eu bod yn cyrraedd y safon gofynnol cyn eu hail-osod. Ar hyn o bryd mae'r weithred yn cymryd 43 diwrnod, fodd bynnag, yn y dyfodol rhagwelir y byddai hyn yn lleihau i tua 35 diwrnod a oedd yn dal i fod yn uwch na'r targed o 26 diwrnod a osodwyd yn y Cynllun Corfforaethol. Gyda'r bwriad o geisio sicrhau bod targed newydd o 35 diwrnod yn ymarferol a bod y dull newydd a gymerwyd mewn perthynas ag ail-osod eiddo'r Cyngor mor dynn ag y gallai fod i sicrhau gwell canlyniadau i denantiaid, mae'r Gwasanaeth Tai wedi comisiynu Archwiliad Mewnol i adolygu'r prosesau dan sylw.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau dywedodd yr Aelod Arweiniol a'r swyddogion bod -

- proses fonitro lem bellach ar waith i sicrhau bod tenantiaid yn cymryd balchder yn eu heiddo a'u cynnal yn unol â hynny
- y Cyngor wedi gosod tua 200 eiddo y flwyddyn
- mewn amser y rhagwelir bod yr amser a gymerir i ailosod eiddo yn lleihau gyda'r gobaith y bydd tenantiaid a oedd wedi ymrwymo i gytundebau tenantiaeth ar eiddo o safon uchel yn ymfalchïo ynddynt ac yn eu gadael maes o law mewn cyflwr rhesymol
- y Gwasanaeth wedi cymryd penderfyniad ymwybodol i ddefnyddio deunyddiau manyleb uwch wrth adnewyddu eiddo'r Cyngor gan fod y Cyngor yn teimlo y byddai cynnyrch o ansawdd uwch yn talu ar ei ganfed yn y dyfodol ac yn sylweddoli gwerth am arian yn y tymor hir
- y Pennaeth Gwasanaeth yn ymweld yn rheolaidd ag eiddo'r Cyngor gydag aelod o'r Tîm Tai
- yr isafswm ar gyfer dangosydd perfformiad ar gyfer ail-osod tai cymdeithasol oedd 20 diwrnod, fodd bynnag mae landlordiaid sy'n cyrraedd y targed hwn yn aml yn tarfu ar fywydau tenantiaid yn ddiweddarach gan orfod gwneud y gwaith cynnal a chadw pan oeddent yn byw yno. Nid oedd hyn yn sefyllfa ddelfrydol ar gyfer naill ai y tenant neu'r landlord
- hysbysebion i fod i gael eu cyhoeddi yn y dyfodol agos ar gyfer pedwar Swyddog Datblygu Cymunedol i weithio fel rhan o'r tîm Tai. Byddai'r swyddogion hyn yn gweithio'n uniongyrchol gyda thenantiaid a Chymdeithasau Tenantiaid sy'n ymdrin ag unrhyw bryderon oedd ganddynt gan gysylltu â'r Cyngor ar eu rhan os oes angen. Byddent hefyd yn dod i adnabod y tenantiaid yn eu hardaloedd gan ddeall eu hanghenion a'u pryderon gan fod yn 'llygaid' a

‘chlustiau’ y Gwasanaeth Tai yn y cymunedau. Rhagwelwyd drwy gael swyddogion wedi'u lleoli yn y cymunedau y byddai ymdeimlad o barch, balchder a pherchnogaeth yn eu cymdogaeth a'r amgylchedd yn cael ei feithrin yn y gymuned ac y byddai hyn hefyd yn helpu i leihau achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddai bodolaeth Swyddogion Datblygu Cymunedol hefyd yn darparu gwasanaeth mwy teg ar draws y sir, gan y byddent yn gwasanaethu ardaloedd trefol a gwledig. Yn y dyfodol efallai y bydd y gweithwyr datblygu cymunedol newydd yn dymuno ail-gyflwyno'r ymweliadau i stadau gan aelodau lleol yn eu ward

- gyda’r bwriad i sicrhau bod tenantiaid yn cynnal eu heiddo i safon rhesymol a byddai gweithwyr y Gwasanaeth Eiddo sy’n edrych ar yr eiddo yn gadael cardiau 'boddhad' i’r tenantiaid i roi adborth ar eu sylwadau ar y gwaith a wnaed. Byddai'r gweithwyr hefyd yn cynnal arolwg o gyflwr yr eiddo. Yn y dyfodol y gobaith yw cyflawni arolwg 'cyflwr' tebyg gan unrhyw aelod o staff y Cyngor sy’n ymweld ag eiddo'r Cyngor gan y farn oedd ei fod yn ddull effeithiol o sicrhau bod safonau disgwyliedig yn cael eu bodloni
- y gobaith drwy gynnal safon eiddo'r Cyngor ar ystadau yn rhesymol yn fewnol ac yn allanol, yw bod perchnogion o gyn-eiddo'r cyngor ar yr un stad yn teimlo bod yn rhaid iddynt hwythau wella cyflwr eu heiddo a gerddi at o leiaf safon gyfatebol
- roedd y Gwasanaeth Tai ar hyn o bryd yn gweithio gyda Cartrefi Conwy gyda'r bwriad o ddysgu gwers o hyn ac o ganlyniad yn gallu gwella terfynau amser a safonau ar gyfer ail-osod drwy fabwysiadu unrhyw un o'i harferion, ac i'r gwrthwyneb
- y Gwasanaeth yn edrych ar wella ei system TG er mwyn gwella darpariaeth gwasanaeth
- yn y tymor hir yr oedd hi’n uchelgais gan y Cyngor i wella ar y targed o ail-osod o fewn 35 diwrnod. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ar strategaethau tai cymdogaeth er mwyn deall anghenion tai yn y dyfodol, caffael mwy o stoc tai a thir i adeiladu tai cymdeithasol ac i ailddosbarthu rhai eiddo presennol i'w gwneud yn haws i'w gosod i unigolion ar gyfer teuluoedd sydd eu hangen
- gwaith amgylcheddol yn ardal Tan yr Eglwys o Ruddlan wedi’i gynnwys yn y cynllun busnes cyfredol ac y byddai'n cael ei gynnal unwaith y bydd yr holl waith dichonolrwydd rhagarweiniol wedi ei gwblhau
- y tîm Strategaeth Tai wedi bod yn gweithio’n agos gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (LCC) yn yr ardal ac os oedd y Cyngor o'r farn nad yw LCC yn cynnal ei eiddo neu ardaloedd amgylcheddol hyd at y safonau disgwyliedig y byddai'n rhoi gwybod bod siawns i ran o'i gyllid gan yr awdurdod lleol (grant tai cymdeithasol) gael ei ddal yn ôl hyd nes y bydd gwaith cynnal a chadw gofynnol wedi’i gwblhau
- y tîm yn ail-ymweld â’r Cynllun 'Arbed' sydd ar y gweill ar hyn o bryd ar nifer o eiddo'r cyngor i edrych ar y manteision yn cynnwys ffiniau eiddo o fewn y Cynllun yn y dyfodol
- yn hyderus bod y gwaith yn cychwyn ar brosiectau tai cymdeithasol yn y sir wedi eu cyflwyno gan y Cyngor cyn diwedd y flwyddyn gan fod tir eisoes wedi ei gaffael ac arian wedi'i ddyrannu o fewn Cynllun busnes y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer y gwaith. Roedd trafodaethau ar y gweill gyda'r Adran Gynllunio mewn perthynas â datblygu briff cynllunio ar gyfer Dinbych, a llwybr i'r farchnad ar gyfer caffaeliadau tir Gogledd y sir.

Ar ddiwedd y drafodaeth, cytunodd y pwyllgor gyda swyddogion ac Aelodau Arweiniol bod dull o ddarparu trigolion a chymunedau â'r hyn y tybir yn angenrheidiol i ddiwallu eu hanghenion a'r hyn oedd yn gydnaws â gwell ansawdd bywyd yn llawer mwy priodol na thargedau 'mynd ar drywydd'.  Felly -

***PENDERFYNWYD**, yn amodol ar y sylwadau uchod, i gefnogi'r ymagwedd a fabwysiadwyd gan y Cyngor o ran ail-osod tai Cyngor a'r targed perfformiad diwygiedig cysylltiedig.*

Yn y fan hon (10.30 am) cafwyd egwyl am luniaeth.

## 6 DIWEDDARIAD STRATEGAETH BAW CŴN

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith, Aelod Arweiniol dros Dir y Cyhoedd yr adroddiad a'r atodiadau cysylltiedig (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar y cynnydd a wnaed gyda'r Strategaeth Baw Cŵn y Cyngor gan nodi'r nifer o achosion a'r ardaloedd sy'n dioddef o'r broblem yn gyson.

Hysbyswyd yr Aelodau bod y Strategaeth Baw Cŵn wedi ei ffurfio fel rhan annatod o flaenoriaeth gorfforaethol y Cyngor o sicrhau strydoedd glân a thaclus. Ategir y broblem gan drigolion yn rheolaidd gyda chynghorwyr ynglŷn â'r broblem o gŵn yn baeddu ac er na allai'r Cyngor fyth gael gwared ar y broblem, mae data diweddar yn bendant yn dangos gostyngiad yn nifer yr achosion a gofnodwyd ac yn cael ei ystyried yn llwyddiant yn gyffredinol.  Sir Ddinbych yw'r Cyngor cyntaf i ddefnyddio Kingdom Security Ltd i gynnal rhai agweddau o waith gorfodi troseddau amgylcheddol, fodd bynnag mae pump allan o'r chwe awdurdod yng Ngogledd Cymru bellach wedi  eu comisiynu  nhw i wneud gwaith gorfodi ar eu rhan ac ledled y DU maent yn gweithredu ar ran 35 o awdurdodau.  Gan ymateb i gwestiynau'r Aelodau, dywedodd yr Aelod Arweiniol dros Warchod y Cyhoedd a swyddogion Gwasanaethau Stryd fod -

- Kingdom yn cael eu rheoli ar ran y Cyngor gan Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch y Gymuned y Cyngor a bod unrhyw ymholiadau/cwynion ynghylch eu gwaith yn cael eu cyfeirio ato
- ar hyn o bryd nid oes unrhyw orchmynion gwahardd gorfodadwy yn ymwneud â chŵn ar draethau, efallai bod is-ddeddfau hanesyddol yn bodoli a'r unig ffordd i orfodi rhain yw trwy gychwyn achos llys
- bwriad i wella pwerau gorfodi y Cyngor mewn perthynas â swyddogion baw cŵn drwy gyflwyno Gorchmynion Gwarchod Gofod Cyhoeddus (PSPOs).  Gallai'r Gorchmynion hyn, lle gallai Cynghorau weithredu dan bwerau a roddwyd iddynt yn y Ddeddf Trosedd a Phlismona Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2014, gan gynnwys gwahardd cŵn o dir penodol a/neu ei gwneud yn ofynnol bod cŵn ar dennyn mewn ardaloedd penodol.  Mae'r Cyngor yn disgwyl i fod mewn sefyllfa i ymgynghori ar y Gorchmynion arfaethedig cyn diwedd y flwyddyn, gan fod swyddogion ar hyn o bryd yn y broses o nodi'r ardaloedd mwyaf priodol i'w dynodi o fewn y Gorchmynion
- er gwaethaf nifer o geisiadau i'r Heddlu nid oeddent wedi cysylltu â'r Cyngor at ddiben camau gorfodi mewn perthynas â baw cŵn, maent hefyd yn amharod iawn i rannu gwybodaeth gyda'r Cyngor ar achosion  baw cŵn

- dylid cyfeirio pryderon yn ymwneud â chŵn peryglus at yr Heddlu gan ei fod yn fater troseddol yn hytrach na mater gorfodi sifil
- lle'r oedd cyfanswm uchel o achosion baw cŵn byddai swyddogion yn tynnu sylw at hynny drwy farcio'r palmentydd gyda sialc melyn unwaith y bydd y swyddogion Gwasanaethau Stryd wedi clirio llanast. Mae'r ymagwedd hon yn ffurfio rhan o'r ymgyrch hyrwyddo i leihau baw cŵn
- 'ardaloedd problematig' yn cael eu dynodi ar sail y nifer o achosion a adroddwyd gan gynghorwyr a/neu aelodau o'r cyhoedd mewn ardaloedd penodol a'u cofnodi ar y system Rheoli Cyswllt Cwsmer (CRM)
- yn ystod y chwe mis diwethaf mae'r Cyngor wedi derbyn tua 82 o gwynion yn erbyn Kingdom, mae hyn yn cyfateb yn fras i lai na 2% o'r Hysbysiadau Cosb Benodedig (FPN) a gyflwynwyd ar gyfer troseddau amgylcheddol. Ar ôl derbyn cwyn bydd Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol y Cyngor yn adolygu'r holl dystiolaeth a gyflwynwyd, gan gynnwys ffilm o gamera corff y Swyddog Gorfodaeth, cyn penderfynu a ddylid cadarnhau'r gŵyn ai peidio. Ym mhob achos byddai'n ysgrifennu at yr achwynydd yn amlinellu ei benderfyniad a'r sail dros y penderfyniad hynny.
- os bernir bod cwynion yn erbyn staff a gyflogir gan Kingdom yn cael eu sefydlu byddai'r Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol yn rhoi gwybod i Kingdom ac y byddent yn delio â hwy yn unol â thelerau contract y Cyngor gyda nhw. Cafodd staff eu symud allan o'r ardal drwy gyfrwng y weithdrefn hon yn ystod cyfnod contract y Cyngor gyda Kingdom
- cynhaliodd Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd a'r Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol wiriadau ar hap ar ffilmiau camera corff i wirio ymddygiadau ac ati yn fisol
- bu achosion lle ymosodwyd ar staff Kingdom gan aelodau anfodlon o'r cyhoedd
- Archwiliad Mewnol wedi adolygu gwaith y Gwasanaeth a Kingdom yn ddiweddar gydag adroddiad, a oedd ar y cyfan yn un cadarnhaol iawn, ac sydd ar fin cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn fuan
- nifer uwch o achosion o faw cŵn yn tueddu i gael eu cofnodi yn ystod mis Ionawr, mae'n debyg oherwydd naill ai fod pobl yn gadael eu cŵn allan ar eu pen eu hunain ac oherwydd bod llai o oriau o olau dydd roedd hyn yn effeithio ar weledd sy'n ofynnol i ddangos tystiolaeth o droseddau honedig yn llwyddiannus. Dylai rotas staff ar gyfer y Gwasanaeth Stryd yn ystod y gaeaf o hyn ymlaen fod o gymorth i fynd i'r afael â'r broblem hon i ryw raddau
- camerâu teledu cylch cyfyng mewn mannau cyhoeddus wedi cael eu prynu yn ddiweddar er mwyn eu defnyddio mewn 'ardaloedd problematig' i gasglu tystiolaeth. Roedd y rhain yn gamerâu compact sy'n cofnodi ffilm pan gaent eu sbarduno gan symudiad. Fodd bynnag, nid yw'r gyfraith yn caniatáu defnydd gudd o'r camerâu ac felly rhaid gosod arwyddion yn rhybuddio'n glir bod camerâu teledu cylch cyfyng yn gweithredu yn yr ardal
- mae'r Gwasanaeth yn ystyried yr opsiwn o fabwysiadu dull cronfa ddata o DNA cŵn, yn debyg i'r un sy'n cael ei ddefnyddio yn Barking a Dagenham ac sy'n cael ei ystyried yn Sir y Fflint, at y diben o leihau baw cŵn. Fodd bynnag, cafodd ei ystyried yn opsiwn rhy ddrud i ddelio â'r broblem. Serch hynny gellir ei ystyried eto rywbryd yn y dyfodol
- Staff Gwasanaethau Stryd yn ymgysylltu'n weithgar â cherddwyr cŵn gan roi sticeri cynghori iddynt yn ogystal â bagiau priodol ac ati tra eu bod hefyd yn

casglu gwybodaeth i'r Cyngor ar unrhyw batrymau neu dueddiadau a oedd yn digwydd o fewn eu hardaloedd

- mae'r Cyngor hefyd yn mynd ati i geisio cael gafael ar gudd-wybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd yn yr 'ardaloedd problematig' mewn ymgais i ddal troseddwyr hysbys. Fodd bynnag, er bod y cyhoedd yn barod i roi tystiolaeth ar lafar i swyddogion roeddent yn amharod i ddarparu datganiadau ysgrifenedig neu i dystio fel tystion os oes angen. Serch hynny, gallai unrhyw dystiolaeth di-gadarn a ddarperir i swyddogion fod yn ddefnyddiol yn y pen draw er mwyn cymryd camau gorfodi
- roedd yn ofynnol i swyddogion gorfodi roi gwybod i berson sydd dan amheuaeth o gyflawni troseddau amgylcheddol bod y cyfweliad yn cael ei recordio. Nid oedd y camerâu yn cael eu rhoi ar waith hyd nes yr oedd y drosedd honedig wedi ei chyflawni, ac felly ni fyddai unrhyw ffilm o'r drosedd ei hun
- bod hysbysiadau cosb benodedig wedi'u cyflwyno ym Mhen Coed yn Ninbych
- rhwng 5 a 7 o swyddogion gorfodi yn patrolio'r ardaloedd yn y sir ar unrhyw un adeg, mae rhai yn patrolio y tu allan i'r amser arferol rhwng 9.00am a 5.00pm er mwyn ceisio dal troseddwyr parhaus
- mae gan swyddogion Kingdom yr hawl i batrolio yn gudd mewn dillad plaen at ddiben plismona a chyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig am gŵn yn baeddu. Does ganddyn nhw ddim yr hawl i batrolio mewn dillad plaen at ddiben canfod mathau eraill o droseddau amgylcheddol. Achosion pan fydd y rheolau hyn wedi cael eu torri wedi dod i'r amlwg ac yn yr achosion hynny mae Kingdom wedi cael ei geryddu am fynd yn groes i reolau'r contract
- os oedd gan gynghorwyr neu breswylwyr bryderon am ymddygiad swyddogion Kingdom dylent roi gwybod ar unwaith i'r Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol neu Reolwr Gwarchod y Cyhoedd
- tua 3000 o Hysbysiadau Cosb Benodedig wedi eu cyhoeddi yn Sir Ddinbych mewn cyfnod o 12 mis, y nifer uchaf a gyhoeddwyd mewn unrhyw awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru. Mae tua 2% o'r rhai a gafodd eu cyflwyno â HCB wedi rhoi cwyn ffurfiol yn erbyn y mater hwn ac wedi mynd ymlaen i apelio, a chafodd y lleiafrif o'r apeliadau hynny eu cadarnhau
- Mae incwm Kingdom o'i gontract gyda'r Cyngor yn rhannol seiliedig ar ffi gontract penodol, ac yn rhannol yn incwm wedi'i gynhyrchu fesul HCB a gyhoeddir
- dymuniad y Cyngor oedd i ddarparu'r gwasanaeth yn fewnol, ond byddai angen sicrhau cyllid i alluogi hynny i ddigwydd
- sbwriel yn ac o amgylch ysgolion wedi gostwng yn sylweddol yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae trafodaethau ar y gweill gyda Cadwch Gymru'n Daclus gyda'r diben i gyflwyno sesiynau i ddisgyblion blwyddyn 6 i'w haddysgu am bwysigrwydd cadw'r amgylchedd yn daclus mewn ymgais i feithrin ymdeimlad o falchder ynddynt a fyddai'n cael ei gynnal trwy gydol eu bywydau ac yn cael ei gynnal o un genhedlaeth i'r llall. Mae'r posibilrwydd o sicrhau cyllid i gynnal cynllun peilot o'r rhaglen o fewn ysgolion sy'n bwydo Ysgol Brynhyfryd yn cael ei archwilio ar hyn o bryd
- angen cynnal ymgyrch cysylltiadau cyhoeddus yn erbyn baw cŵn er mwyn cadw proffil uchel. Gyda hyn mewn cof mae swyddogion yn trafod â'r Pennaeth Cwsmeriaid, Cyfathrebu a Marchnata gyda'r bwriad o symud ymlaen â'r ymgyrch yn rheolaidd drwy gyfryngau cymdeithasol, a
- bod archwilio o bosib yn dymuno i ni ymgynghori ar y PSPOs drafft maes o law.

Mewn ymateb i Hysbysiad Cosb Benodedig am achos o ysmygu honedig yn ymwneud â swyddogion Kingdom a gŵr oedrannus a adroddwyd yn y wasg yn gynharach yn yr wythnos, dywedodd y Pennaeth Gwasanaeth a'r Uwch Swyddog Gorfodi Diogelwch Cymunedol fod y mater ers hynny wedi'i ddatrys yn foddhaol.

Aelodau -

- awgrymwyd unwaith y cytunwyd ar y PSPOs a bod y rhain yn cael eu gweithredu y byddai o bosib yn briodol i staff gorfodi, gan gynnwys Kingdom i hysbysu ac addysgu pobl amdanynt yn y lle cyntaf cyn cymryd unrhyw gamau gorfodi yn erbyn tramgwyddau
- dywedwyd y dylid ymweld â Ffordd Ystrad, Dinbych drwodd tuag at Brookhouse, a chae pêl-droed Parc Canolog Dinbych i benderfynu a ddylid eu cynnwys yn y rhestr o 'ardaloedd problematig' ar gyfer baw cŵn
- wrth lunio PSPOs arfaethedig dylid eu cymryd mewn ardaloedd lle mae prinder lle i ymarfer cŵn er mwyn taro cydbwysedd priodol rhwng yr angen am ardaloedd hamdden diogel i blant a'r cyhoedd ac i gerddwyr/perchnogion cŵn. Defnyddiwyd Rhuddlan fel enghraifft, yn arbennig Caeau Chwarae Admiral
- gofynnwyd hefyd bod Pen Coed, Dinbych yn cael ei ystyried fel ardal posibl ar gyfer PSPO, a
- gofynnwyd bod elfen o hyblygrwydd a synnwyr cyffredin yn cael ei ddefnyddio wrth gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig yn ystod digwyddiadau mawr, megis Sioe Awyr y Rhyl, lle na all aelodau o'r cyhoedd roi sbwriel ac ati yn y biniau a ddarperir gan eu bod yn llawn. Cadarnhaodd swyddogion y byddai staff gorfodi yn cael eu cynghori i ddefnyddio eu disgresiwn mewn digwyddiadau o'r fath ac yn ymgymryd â rôl mwy ymgynghorol. Byddai'r Tîm Gwasanaethau Amgylcheddol hefyd wrth law i wagio biniau ac ati unwaith i'r torfeydd wasgaru.

Ar ddiwedd y drafodaeth dyma'r swyddogion yn darparu'r aelodau gyda'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer y cwynion a gyflwynwyd yn erbyn Kingdom trwy weithdrefn Cwynion Corfforaethol 'Eich Llais' y Cyngor ac i ail-gyflwyno'r adroddiad ystadegol chwarterol i aelodau ar nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a roddwyd. Felly -

***PENDERFYNWYD****, yn amodol ar y sylwadau uchod, i gefnogi'r gwaith rhagorol a wnaed gan swyddogion ar draws y gwasanaethau i fynd i'r afael â baw cŵn yn y sir.*

**7 ADOLYGIAD O'R GOFRESTR RISG GORFFORAETHOL- MEHEFIN 2016**

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol dros Gyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, y Cynghorydd Julian Thompson Hill yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar adolygiad Mehefin 2016 o Gofrestr Cynllun Corfforaethol y Cyngor.

Manylodd yr Aelod Arweiniol y prif faterion a amlygwyd yn yr adroddiad ac eglurodd pam fod categoreiddio risg ar gyfer rhai wedi cael eu newid ac eraill wedi cael eu dileu neu eu graddio i lawr i risgiau Gwasanaeth yn hytrach na risgiau corfforaethol.

Mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau dywedodd yr Aelodau Arweiniol yn bresennol a'r Prif Weithredwr -

- mewn perthynas â chanlyniad y Refferendwm diweddar ar aelodaeth yr Undeb Ewropeaidd (UE) fod y Cyngor wedi gofyn i Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) i gynnal dadansoddiad fesul sir a rhanbarth o effaith y penderfyniad i adael yr UE. Byddai hyn yn ddarn helaeth o waith, ac oherwydd yr ansicrwydd ynghylch Llywodraeth y Deyrnas Unedig ar hyn o bryd, ni ragwelwyd y byddai darlun clir yn dod i'r amlwg o'r effaith gwirioneddol ar lywodraeth leol tan yr hydref ar y cynharaf. Gan fod cronfeydd strwythurol yr UE wedi cytuno arnynt hyd at 2020 pan roedd y cronfeydd strwythurol newydd i fod ar gael, rhagwelwyd y byddai'r effaith ar brosiectau a gytunwyd arnynt eisoes yn Sir Ddinbych yn fach iawn
- mewn perthynas â Risg Corfforaethol DCC032 yn ymwneud ag ad-drefnu llywodraeth leol roedd yn awr yn amlwg na fyddai llywodraeth leol yn cael ei had-drefnu yn y dyfodol agos gan fod Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y byddai etholiadau awdurdodau lleol y flwyddyn nesaf am dymor o 5 mlynedd yn y Cyngor hyd at 2022. Er hynny, roedd risg yn dal i fodoli mewn perthynas â chynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol yn y dyfodol.
- bod y risg yn ymwneud â modelau gwasanaeth amgen wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar gyda chasgliadau arolwg Estyn o wasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol Gogledd Cymru, GwE. Mae swyddogion o Sir Ddinbych wedi cyflwyno cynigion ar sut y gellir diwygio GwE er lles disgyblion Sir Ddinbych, er nad oedd sicrwydd ynghylch a fyddai'r cynigion hyn yn cael eu cefnogi gan awdurdodau addysg lleol eraill a oedd yn rhanddeiliaid yn GwE. Os nad oedd Sir Ddinbych yn hapus gyda'r ffordd ymlaen gyda'r gwasanaeth rhanbarthol, byddai'n rhoi rhybudd i dynnu'n ôl. Nid oes penderfyniad wedi cael ei wneud hyd yma o ran hyn, ond mae cyfarfod wedi ei drefnu gyda swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod yr haf i drafod sut y gellir gwella'r model.
- DCC017 – mae'r risg hwn bellach wedi'i dynnu o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ac y byddai yn y dyfodol yn cael ei reoli ar lefel Gwasanaeth gan fod yr holl waith gweithredu TG strategol yn ymwneud â symud i Outlook a'r system teleffoni wedi'i gwblhau. Materion yn ymwneud ag aelodau etholedig TG yn cael ei drafod mewn Gweithgor Gwasanaethau Democrataidd a TG ar y cyd sydd ar fin cael ei sefydlu yn ystod yr haf i drafod atebion a gofynion TG posib ar gyfer aelodau etholedig ar ôl etholiadau awdurdodau lleol 2017.
- DCC016 – mae'r risg hwn yn ymwneud ag effaith y diwygiadau lles yn cael effaith mwy sylweddol na ragwelwyd yn wreiddiol wedi cael ei dynnu oddi ar y Gofrestr Risg Corfforaethol. Serch hynny, unwaith y cyflwynwyd y Credyd Cynhwysol (UC) fe ymddangosodd risg newydd sy'n ymwneud â'r UC ac o bosib bydd angen ei gynnwys ar y Gofrestr Risg. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen 'Torri Brethyn' wedi edrych ar yr effaith o gael gwared ar yr Uned Hawliau Lles (WRU) a throsglwyddo darpariaeth gwasanaeth i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth (CAB) gan ddod i'r casgliad nad oedd yr effaith wedi bod yn waeth nag a ragwelwyd yn wreiddiol. Yr oedd yn fod i edrych ar y mater eto yn ei gyfarfod ar ddiwedd mis Gorffennaf gan ei bod yn awyddus i weld pa wasanaethau ychwanegol / cyngor y byddai'r CAB wedi gallu ei ddarparu.

Dywedodd Aelodau y Rhyl bod Siop Cyngor Budd-daliadau y Rhyl wedi cysylltu â'r Cyngor Tref am gyllid i sicrhau ei ddyfodol yn dilyn diwedd y flwyddyn hon. Sail eu hachos am gyllid oedd eu bod wedi sicrhau gwerth £4 miliwn o fudd-daliadau, ac ati ar gyfer dinasyddion yn ardal y Rhyl. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth yr aelodau

etholedig i fod yn ofalus pan fydd sefydliadau yn cyflwyno ceisiadau am gyllid sylweddol. Cyfeiriodd at URC/CAB fel enghraifft o ble mae colli darparwr ddim yn gyfystyr â phreswylwyr yn colli allan ar wasanaeth neu golli allan yn ariannol.

Ar ddiwedd y drafodaeth roedd y Pwyllgor wedi:-

***PENDERFYNU**, yn amodol ar y sylwadau uchod, i nodi'r dileadau, ychwanegiadau a newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol a'u derbyn yn unol â hynny.*

## 8 RHAGLEN WAITH ARCHWILIO

Cyflwynodd y Cydlynydd Archwilio adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn gofyn i'r aelodau adolygu rhaglen waith y pwyllgor ac i roi diweddariad ar faterion perthnasol.

Ymhelaethodd y Cydlynydd Archwilio eitemau a fyddai'n cael eu hystyried yng nghyfarfodydd y dyfodol ac ymatebodd i gwestiynau'r aelodau ar hynny. Adroddodd am y cyfarfod nesaf a drefnwyd ar gyfer 29 Medi a oedd yn cynnwys y ddau sesiwn, yn fore a phrynhawn a phwysleisiodd ar bwysigrwydd presenoldeb aelodau a gofynion cworwm cyfarfod. Nododd y pwyllgor hefyd fod y Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeirydd Archwilio wedi cyfeirio'r pwyllgor i graffu ar berfformiad Diogelu Oedolion yn Sir Ddinbych a oedd wedi'u cynnwys yn yr eitemau i'w hystyried yn y cyfarfod nesaf. Cytunwyd bod Aelodau Arweiniol perthnasol yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfod hwnnw. Yn olaf tynnwyd sylw'r aelodau at yr adroddiad 'Eich Llais' (Mai 2016) a geir yng nghrynodeb o wybodaeth y pwyllgor.

***PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r rhaglen waith fel y manylir yn Atodiad 1 o'r adroddiad a bod yr Aelodau Arweiniol perthnasol yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol ar gyfer eu heitemau penodol yn y cyfarfod nesaf ym mis Medi.*

## 9 ADBORTH GAN GYNRYCHIOLWYR Y PWYLLGOR

Adroddodd y Cynghorydd Arwel Roberts ar gyfarfod y Grŵp Monitro Safonau Ysgolion diwethaf (SSMG) gan roi gwybod bod y ddwy ysgol a ystyriwyd wedi perfformio'n dda iawn ac wedi cael cefnogaeth dda gan GwE. Fodd bynnag, yn ystod cyfarfodydd y SSMGs roedd absenoldeb disgyblion yn parhau i gael ei godi fel mater o bryder. Dywedodd y Cydlynydd Archwilio y byddai Pwyllgor Archwilio Cymunedau yn ystyried y Polisi Absenoldeb mewn Ysgolion yn eu cyfarfod ar 8 Medi 2016.

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn a chofnodi'r adroddiad ar lafar.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.35 pm.